Yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru
The Methodist Church in Wales

# Cronfa Blaensymiau'r Synod Mis Medi 2024

## 1. Grantiau ar gyfer Gweinidogaeth a Chenhadaeth Eglwysi a Chylchdeithiau

Mae Pwyllgor Cynlluniau a Grantiau'r Synod yn rhoi grantiau ar gael i gefnogi staff ychwanegol i'r Cylchdeithiau ar gyfer cenhadaeth ac estyn. Dylai'r gwaith hwn fod yn cysylltu yn amlwg â blaenoriaethau cenhadol y Gylchdaith. Disgwylir cyfaniadau oddi wrth yr Eglwys neu'r Gylchdaith tuag at y costau. Sef £1000 - £30,000 fel arfer bob blwyddyn am 3 blynedd (hyd at 50% cyfanswm y gost). Dylid llenwi ffurflen Gais i Gronfa Blaensymiau'r Synod. Mae cefnogaeth oddi wrth y Gylchdaith yn ofynnol ar gyfer gwneud cais. Rhoddir enghraifft o ddisgrifiad o brosiect ar ddiwedd y ddogfen hon i roi arweiniad i chi.

## 2. Grantiau ar gyfer Cynlluniau Adeiladu eglwysi a Chylchdeithiau

Mae Pwyllgor Cynlluniau a Grantiau'r Synod yn dymuno annog eglwysi i addasu eu hadeiladau i gynyddu'r gallu i genhadu ac estyn cymorth. Dylai'r cynllun fod yn cysylltu yn amlwg â blaenoriaethau cenhadol yr eglwys a'r Gylchdaith fel ei gilydd. Mae swm cyfyngedig o gyllid ar gael ac ystyrir cyfraniad y Synod o hyd at 15% o gyllideb y prosiect, hyd at £30,000, yn gronfa gydweddu fechan i annog codi arian fel arall a cheisiadau am grantiau o fannau eraill. Nid yw'r gronfa hon ar gael ar gyfer gwaith cynnal a chadw rheolaidd, nac am waith y gallai'r archwiliadau pum mlynedd dynnu sylw ato nac am waith atgyweirio mansau. Dylid creu prosiect ar y cynllun Cydsyniad Enwadol. Nid yw prosiectau sy'n cael eu cwblhau heb Gydsyniad yn gymwys ar gyfer cyllid.

Mae Martin Lougher, Swyddog Eiddo'r Synod, ar gael i roi cyngor. Gall ef gynghori ynglŷn â'r angen i lenwi ffurflen gais i Gronfa Blaensymiau'r Synod neu beidio.

## 3. Grantiau bychain ar gyfer Ymgysylltiad Cenhadol a Chymunedol

Mae Pwyllgor Cynlluniau a Grantiau'r Synod yn dymuno annog ffyrdd creadigol o ymestyn cenhadaeth i'r gymuned. Mae grantiau bychain ar gael ar gyfer mentrau cenhadol lleol. Dyma enghreifftiau: offer newydd ar gyfer chwarae mewn grwpiau plant bach; symiau i'w rhoi at gychwyn café i'r ieuenctid; offer ar gyfer addoli ar ddull café; costau ar gyfer digwyddiad neu raglen gwaith maes. Mae grantiau o £100 – 1000 ar gael. Dylid llenwi ffurflen gais i Gronfa Blaensymiau'r Synod. Mae cefnogaeth y Cyngor Eglwysig i'r cais yn ofynnol.

## 4. Grantiau Bychain i gefnogi Gweithgareddau Ieuenctid

Mae dau swm o arian ar gael bob blwyddyn.

a. Mae cyfanswm o £1,500 yn cael ei ddal yn flynyddol ar gyfer mentrau unigol mewn Cylchdeithiau a fyddai'n annog pobl ifanc (o oedran ysgol uwchradd a myfyrwyr iau gan fwyaf) i gyfarfod mewn lleoliad sy'n fwy lleol, neu unigolion i ddod i ddigwyddiadau neu i gael hyfforddiant. Gall arweinyddion Ieuenctid/eglwys iau mewn eglwysi a Chylchdeithiau wneud cais am gymorth i'r gronfa hon, gan ddefnyddio'r ffurflen gais i Gronfa Blaensymiau'r Synod.
b. Mae cyfanswm o £3,200 yn cael ei ddal yng nghyllideb y Synod ar gyfer gweithgareddau Momentwm, sy'n cynnwys cefnogaeth i bobl ifanc fod â rhan mewn digwyddiadau. Caiff y gwariant ei ganiatáu gan Gadeirydd Momentwm hyd at y cyfanswm hwn yn flynyddol.

## 5 Grantiau i gefnogi Eglwysi â mentrau i ymladd Newid Hinsawdd

Mae Pwyllgor Cynlluniau a Grantiau'r Synod yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i'r Eglwysi a'r aelodau, gyda'i gilydd ac yn unigol, gymryd camau yn rhan o'u hymrwymiad i fod yn stiwardiaid y greadigaeth. Mae hi'n galonnog fod rhai eglwysi yn cymryd camau eisoes i fynd yn Eglwysi Eco neu i leihau eu hôl troed carbon.

Mae'r mathau o fentrau a gefnogwyd yn cynnwys: codi ymwybyddiaeth neu ddigwyddiadau i ymgyrchu yn y gymuned ynglŷn â materion amgylcheddol; cyfranogiad mewn camau amgylcheddol; creu gerddi; cynyddu bioamrywiaeth ar libart y capeli; mentrau bychain i leihau allyriadau carbon (goleuadau LED, inswleiddio, newid peiriannau sy'n gweithio â nwy i rai trydan gwyrdd) neu osod paneli solar ffotofoltaig).

Mae prosiect o'r fath yn syrthio rhwng dwy ffrwd o gyllid sef ar gyfer adeiladu ac ar gyfer cenhadaeth. Gall cynlluniau ar gyfer addasiadau i adeiladau sy'n strwythurol neu ar raddfa fwy wneud cais i Bwyllgor Cynlluniau a Grantiau'r Synod dan gynlluniau adeiladu lle mae hyd at 10% o'r gost ar gael. Mae'r grantiau hyn ar gael hyd at swm o £6000. Mae canllawiau ar gael hefyd a dylid gwneud cais gan ddefnyddio ffurflen Gais Cronfa Blaensymiau'r Synod.  Mae'r cyllid yn gyfyngedig ond ar gael yn gyfredol.

### 6 Grantiau ar gyfer Mansau

Gall Ymddiriedolaeth Elusennol y Synod gynnig peth cefnogaeth i adnewyddu mansau mewn rhai amgylchiadau. Cysylltwch ag ysgrifennydd yr ymddiriedolaeth sef Martin Rees, am gyngor.

**Ceisiadau**

Mae ffurflen gais i Gronfa Blaensymiau'r Synod ar gael i'w lawrllwytho o wefan y Synod gyda'r canllawiau ar gyfer y cyllid ychwanegol. Fel dewis arall, anfonwch e-bost i swyddfa'r Synod.

Nodyn:  Ni ellir rhoi grantiau ar gyfer gwaith a ddechreuwyd yn barod neu ar gyfer ad-dalu benthyciadau.

Mae Pwyllgor Cynlluniau a Grantiau'r Synod yn cyfarfod ym misoedd Hydref a Mawrth i drafod cynlluniau mawr.  Gellir rhoi caniatâd i gynlluniau syml ar sail dreiglol. Os oes angen cymorth arnoch chi neu i drafod eich syniadau, cysylltwch â'r unigolyn perthnasol, os gwelwch yn dda.

Cynlluniau Eiddo ac Adeiladu – Martin Lougher   martinlougher@mac.com

Gweinidogaeth a Chenhadaeth – Gill Peace  peacelossl@btinternet.com

## Atodiad 1: Enghraifft o Ddisgrifiad o Brosiect Cenhadol neu Allgymorth ar gyfer gwneud Cais i Gronfa Blaensymiau'r Synod

**Bwriad y prosiect:**  Y bwriad yw ymestyn yr efengyl at blant a phobl ifanc yn ein cymuned ni.

Amcan 1: Darparu addoliad rheolaidd sy'n ddeniadol i blant a theuluoedd

Amcan 2: Ymgysylltu â phlant y ddwy ysgol gynradd yn ein hardal ni a'u rhieni nhw

Amcan 3: Ymestyn at blant a phobl ifanc yn ein heglwys a'n cymuned gyda gweithgareddau y maen nhw'n cael pleser ynddyn nhw.

**Gweithgareddau ar gyfer pob Amcan:**

Amcan 1: Darparu eglwys hwyliog unwaith y mis; cynnal oedfa deuluol yn yr awyr agored unwaith y mis.

Amcan 2: Cynnal gwasanaethau mewn ysgolion ac Agor y Llyfr yn ysgolion ein cymdogaeth

-Annog aelod o'r gynulleidfa i fod yn Llywodraethwr ysgol

-Dod â phlant i mewn i'r addoldy drwy gynnig ymweliad â'r capel ar gyfer gwersi Addysg Grefyddol; cynnig lleoliad ar gyfer gwasanaethau carolau'r ysgolion a digwyddiadau eraill; gwahodd plant yr ysgol i berfformio yn nigwyddiadau'r eglwys a chlwb cinio ac ati.

Amcan 3: Ailddechrau grwp plant bach ar fore nad oes unrhyw eglwys arall yn cynnal un yn lleol; gan weithio yn ecwmenaidd, trafodwch â rhieni a phobl ifanc i ddarganfod pa bethau sydd ar goll a chynnig sesiwn ar ôl ysgol wythnosol ar sail y gweithgareddau a awgrymir.

**Gynllun Gweithredu**

Blwyddyn 1: Sefydlu gweithgor; ar gyfer siarad gydag eglwysi lleol, ysgolion, darparwyr gweithgareddau ieuenctid eraill; recriwtio gweithiwr lleyg newydd; dechrau gweithgareddau cyntaf mewn un ysgol ac addoliad newydd ar gyfer plant yn yr eglwys. Ymestyn at 250+ o blant drwy'r ysgol a 30+ drwy'r addoliad newydd

Blwyddyn 2: Ymgysylltu â'r ail ysgol; ailddechrau gyda'r plant bach; cychwyn addoli yn yr awyr agored gyda theuluoedd. Cyrraedd 500+ drwy'r ysgolion; 30+ drwy addoliad; 30+ drwy weithgareddau newydd

Blwyddyn 3: Perthynas fwy dwfn a pharhau i recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr; dechrau gweithgaredd ar ôl ysgol. Cyrraedd 500+ o blant drwy'r ysgolion; 30+ drwy addoliad; 50+ drwy weithgareddau a ddechreuwyd yn ddiweddar neu newydd.

**Adnoddau Angenrheidiol**

Gweithiwr lleyg rhan amser i gydlynu'r gweithgareddau, recriwtio, hyfforddi a threfnu gwirfoddolwyr ar gyfer y gweithgareddau ac ysgogi'r aelodau i gefnogi mentrau newydd.

**Cyllideb:**

Costau: Cyflog a gwaith arall; teithio a ffôn; hyfforddiant a diogelu; adnoddau ar gyfer gweithgareddau a gynllunir; tripiau

Incwm: Cyfraniad o'r eglwys yn cynnwys rhoddion/tanysgrifiadau cyfranogwyr, cyfraniad o'r Gylchdaith; grant bychan gan yr ymddiriedolaeth; grant o Gronfa Blaensymiau'r Synod.